Crist y Ffoadur (tôn St Catherine)

Ffoadur Grist, o Fethlehem
gyrrwyd dy deulu tlawd ar daith,
i ffoi rhag erledigaeth lem
gan deimlo'n ofnus lawer gwaith.
Bydd gyda'r rhai mewn ofn a ffy
rhag cysgod angau'n dyddiau ni.

Bererin Grist, o'th gartref clyd
bu'n rhaid i tithau grwydro mhell.
Bydd gyda'r rhai ar daith o hyd
i geisio canfod bywyd gwell.
Yn eu hwynebau gad i ni,
Bererin Grist, d'adnabod di.

O Grist y Bugail, clyw ein llef
dros braidd y nos, dan ddüwch nen.
I'r rhai ar goll ymhell o dref
rho siriol wawl un Seren wen:
-arwydd i'r byd o'th gariad mawr,
ernes o olau nes daw'r wawr.

Casi M Jones